**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (191)**

**Dydd Mawrth, 14 Mawrth 2006**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm


**Eitem 1 -** Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

**Eitem 2 -** Y Datganiad Busnes

**Eitem 3 -** Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon – 'Dawns yng Nghymru: Adolygiad'

**Eitem 4 -** Datganiad gan y Gweinidog â chyfrifoldeb dros Gyfle Cyfartal: Cyflog Cyfartal

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth*

**Eitem 5 -** Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 24.25

**Eitem 6** – Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Plant (Gorchmynion Rhagnodedig – Gogledd Iwerddon, Guernsey ac Ynys Manaw) (Diwygio) 2006 o dan Reol Sefydlog 25 Rhan 3

**Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006**

**Eitem 8 -** Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru

**Eitem 9 -** Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Adran 19(2) (C) o Ddeddf Rheilffyrdd 2005 i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**Eitem 10 -** Cynnig i gymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig Rhif 3 2005 – 2006: Diogelwch Ffyrdd Lleol


.....................................

## Eitem 1 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

.....................................

## Eitem 2 - Y Datganiad Busnes

.....................................

## Eitem 3 - Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor

# Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon – ‘Dawns yng Nghymru: Adolygiad’

.....................................

# Eitem 4 - **Datganiad gan y Gweinidog â chyfrifoldeb dros Gyfle Cyfartal: Cyflog Cyfartal**

.....................................

## *Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni’n syth*

# Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 24.25

**NDM2912 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006;

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006; ac
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno
Y Memorandwm Cywiriadau

.....................................

# Eitem 6 – Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Plant (Gorchmynion Rhagnodedig – Gogledd Iwerddon, Guernsey ac Ynys Manaw) (Diwygio) 2006 o dan Reol Sefydlog 25 Rhan 3

**NDM2913 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo’r rheoliadau drafft, Rheoliadau Plant (Gorchmynion Rhagnodedig – Gogledd Iwerddon, Guernsey ac Ynys Manaw) Diwygio 2006, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 7 Mawrth 2006, ac yn nodi’r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 7 Mawrth 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Plant (Gorchmynion Rhagnodedig – Gogledd Iwerddon, Guernsey ac Ynys Manaw) Diwygio 2006

Memorandwm Esboniadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

.....................................

# Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006

**NDM2914 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006.

**NDM2915 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

.....................................

# Eitem 8 - Dadl wedi’i henwebu gan Blaid Cymru

**NDM2916 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau digon o arian cyfatebol ar gyfer rownd gyntaf y cyllid Ewropeaidd a gafodd effaith andwyol ar gyllidebau craidd, a

2. Yn cyfarwyddo Prif Weinidog Cymru i ddechrau trafodaethau gyda Thrysorlys y DU yn ddiymdroi er mwyn sicrhau digon o arian cyfatebol ar gyfer y rhaglen cyllid Ewropeaidd newydd a fydd yn dechrau yn 2007 ac i adrodd o bryd i’w gilydd gerbron y Cynulliad am hynt trafodaethau o’r fath.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnwys, ym mhwynt 1, ar ôl ‘craidd’: ‘a’i methiant i wneud defnydd llawn o’r cronfeydd Ewropeaidd oedd ar gael’.

....................................

## Eitem 9 - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Adran 19(2) (C) o Ddeddf Rheilffyrdd 2005 i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**NDM2917 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (a) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan adran 19 (2) (c) Deddf Rheilffyrdd 2005, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw:

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn.

*Ceir copi o Ddeddf Rheilffyrdd 2005 ar y Rhyngrwyd yn y cyswllt hwn: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2005/20050014.htm#aofs*

....................................

## Eitem 10 - Cynnig i gymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig Rhif 3 2005 – 2006: Diogelwch Ffyrdd Lleol

**NDM2918 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dan Adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 21.11, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 3) (Cymru) 2006 am Ddiogelwch Ffyrdd Lleol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 7 Mawrth 2006.

Dogfennau Ategol
Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 3) (Cymru) 2006

....................................

### Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm

……………………………………………..

## Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am

## 2.00pm ddydd Mercher, 15 Mawrth 2006

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**